

Arholiadau Aelodaeth Sylfaenol 22 Ebrill 2023

Adroddiad Cyffredinol

Y diffiniad o Aelodaeth Sylfaenol:

Dyma'r lefel broffesiynol sylfaenol i'r rhai sy'n gwneud gwaith cyfieithu mewn amrywiaeth o feysydd cyffredinol ac yn trafod meysydd mwy arbenigol o bryd i'w gilydd. Disgwylir i'r safon gyfateb i waith cyfieithydd sydd ar ddechrau ei g'yrfa ac yn gweithio dan arolygiaeth cyfieithydd profiadol ers blwyddyn o leiaf. Disgwylir iddo/i fedru cyfieithu deunydd darllen cyffredinol yn weddol ddidrafferth. Dylai feddu ar ddealltwriaeth gyffredinol o gefndir diwylliannol y ddwy iaith.

Adran 1 – Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Tud. 2

Adran 2 – Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg

Tud. 6

Adran 1 – Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Nifer yr ymgeiswyr: 29

Llwyddo: 9

Fel mae'r disgrifiad uchod o Aelodaeth Sylfaenol yn ei ddweud, mae'r cymhwyster yn cyfateb i waith a wneir dan oruchwyliaeth ar lefel *broffesiynol sylfaenol*. Felly, er na ddisgwylir perffeithrwydd, mae'r marcwyr am weld cyfieithiadau cywir, addas a graenus sy'n cyfleu ystyr y gwreiddiol mewn ffordd naturiol yn yr iaith darged, h.y. safon o waith sy'n deilwng o gyfieithydd proffesiynol.

Bu ychydig yn llai na thraean yr ymgeiswyr yn llwyddiannus yn yr arholiad Sylfaenol y tro hwn, ac roedd sawl un arall wedi cyrraedd y safon ofynnol mewn un darn, ond heb lwyddo i'w chynnal ar hyd y papur. Gwaetha'r modd, mae'n gyffredin gweld cyfieithiad da o'r darn cyntaf, dim ond i'r safon lithro yn yr ail ddarn. Tybir efallai bod rhai o'r ymgeiswyr hyn wedi treulio gormod o amser yn mireinio'r darn cyntaf, ac yna wedi gorfod rhuthro trwy'r ail ddarn heb adael digon o amser i brawfddarllen yn ofalus. Wedi dweud hynny, baglodd ymgeiswyr eraill ar y darn cyntaf, gan fethu â chyfleu'r ystyr yn iawn. Fel bob amser, yr un yw'r cyngor a roddir i ddarpar ymgeiswyr: magu profiad o gyfieithu wrth eu gwaith, gwneud hen bapurau dan amodau arholiad er mwyn ymarfer cyfieithu darnau tebyg gan adael digon o amser i brawfddarllen, a darllen Cymraeg safonol yn eang er mwyn datblygu ymwybyddiaeth gynhenid o gywair a chystrawen priodol. Bydd ymgeiswyr sy'n dilyn y cyngor hwnnw yn y sefyllfa orau i wneud cyfiawnder â'u hunain yn yr arholiad.

Roedd y ddau ddarn a osodwyd yn ymwneud â phynciau gwahanol ac yn cynnig cyfle i'r ymgeiswyr ddangos eu gallu i drin y Gymraeg yn ddeheuig. Braff felly oedd gweld nifer fawr ohonynt yn manteisio ar y cyfle hwnnw:

...dau argyfwng sydd â chyswllt anorfod rhyngddynt...

...tynnu'n groes i'w gilydd... (opposites)

Ond prin yw'r newyddion da...

...diliwio riffiau cwrel...

Felly, byddai unrhyw un sy'n poeni'n angerddol am fyd natur yn ddoeth i weithredu dros newid yn yr hinsawdd hefyd ac mae yna dystiolaeth gynyddol o weithredoedd sydd o fudd i'r ddau...

Mae manteision ffisiolegol canu, a cherddoriaeth yn fwy cyffredinol, wedi cael eu harchwilio ers cryn amser.

...selogion corau...

Mae'r boddhad a geir o berfformio ar y cyd...

...sy'n denu pobl yn ôl am fwy.

...credir bod cerddoriaeth yn perthyn i'r ychydig rai dawnus...

...a'r chwilio cynyddol daer am atebion...

Cafodd nifer fawr o'r ymgeiswyr drafferth cyfieithu brawddeg olaf y darn cyntaf, sef *None of these measures can replace the overriding need to wean our economies off fossil fuels and*

overhaul our agricultural systems and diets, but we should scale up all available methods before it's too late.

Gwelwyd gwendidau yn amrywio o ansicrwydd ynghylch sut i ddechrau'r frawddeg, e.e. **Nid oes yr un o'r mesurau hyn yn gallu...**, i ddewis amhriodol o eirfa, e.e. **angen gor-redol, diddyfnu, atgyweirio, bwydydd/lluniaeth, mireinio/defnyddio/ehangu/bwyso a mesur pob dull sydd ar gael**, a gwallau cywirdeb, e.e. **dylwn ni** yn hytrach na **dylem ni**. Roedd y frawddeg hon yn gyfle i'r ymgeiswyr gamu'n ôl, ystyried ystyr y gwreiddiol a llunio cyfieithiad a oedd yn addas i gyd-destun y darn. Er bod geiriau fel **diddyfnu** ac **atgyweirio** yn cyfateb i *wean* ac *overhaul*, nid ydynt yn addas i'r cyd-destun. Sylwer ar yr enghreifftiau canlynol a lwyddodd i gyfleu'r ystyr yn iawn mewn ffordd effeithiol yn y Gymraeg:

Ni all yr un o'r mesurau hyn...

...ddisodli'r angen hollbwysig...

...leihau ein defnydd o danwyddau ffosil...

...ailwampio ein systemau amaethyddol/thrawsnewid ein systemau amaethyddol...

...gynyddu'r defnydd o bob dull sydd ar gael/gynyddu graddfa'r holl ddulliau sydd ar gael/dwysáu'r defnydd o bob dull sydd ar gael...

...cyn ei bod yn rhy hwyr/cyn iddi fynd yn drech arnom.

Yn anffodus, gwelwyd enghreifftiau niferus o ddefnydd anaddas o eirfa ac ymadroddion chwithig yn y ddau ddarn. Disgwylir i gyfieithwyr fod yn ddigon medrus i allu adnabod beth sy'n addas neu beidio yng nghyd-destun y darn dan sylw, ond gwaetha'r modd nid oedd y dewisiadau canlynol yn taro deuddeg, gan amharu ar y rhediad a'r ystyr, e.e.:

tiriogaeth (*domain*)

archolladwy (*vulnerable*)

seicolegol (*physiological*)

blynyddoedd (*decades*)

cerddorol (*communal*)

rhyfeddol/gyfareddol (*fascinating*) ('diddorol' yw'r ystyr yng nghyd-destun y darn)

mesuriadau (*measures*)

dod i'r afael (*addressing*)

sbotio (*spotted*)

yng ngwledydd y gorllewin (*in Western societies*)

wrthdystio (*protest*)

sychu allan (*drying out*)

seiliau cyffredin (*origins*)

yn enwedig o fuddiol (*particularly beneficial*)

mae'n barod yn cael ei defnyddio (*already used*)

pryderon sy'n adeiladu (*mounting concerns*)

sbarduno'r gwybyddol (*cognitively stimulating*)

gwella'r anadliad (*improving breathing*)

Ar ben hynny, gwelwyd enghreifftiau niferus o gystrawen wallus:

wedi'u hymddangos i fod yn

yn y nifer o rai mathau adar

beth y gallai effaith rhai o'r mewnfudwyr diweddar ei chael

gwrando ar a chymryd rhan mewn

pobl i weld yn dychwelyd

sydd ganddynt ddim gallu cerddorol

sy'n achosi pobl i barhau

sy'n cadw dod â phobl yn ôl

p'un ai os yw

Yn ogystal ag enghreifftiau o newid trefn brawddegau yn ddiangen gan newid yr ystyr:

The physiological benefits of singing, and music more generally, have long been explored.
Cafwyd ymchwil ers tro byd i fanteision seicolegol canu a cherddoriaeth yn gyffredinol.

In Western societies, music-making is often thought...
Credir bod creu cerddoriaeth mewn cymdeithasau'r Gorllewin...

Roedd rhai ymgeiswyr wedi gorgyfieithu, gan ychwanegu gormod a chrwydro'n rhy bell o'r ystyr:

...regular choir members...
...aelodau o gorau sy'n mynychu ymarferion yn rheolaidd...

Ond yn fwy cyffredin oedd yr enghreifftiau lu o hepgor geiriau. Er ei bod yn amlwg bod hepgor rhai o'r geiriau yn y rhestr ganlynol yn newid yr ystyr yn llwyr (*muscle, British*), nid geiriau llanw mo'r gweddill; mae iddynt ystyr a phwrpas yn y frawddeg ac mae'n gyfrifoldeb ar y cyfieithydd i fod yn effro iddynt a'u cyfleu'n gywir er mwyn llunio cyfieithiad ffyddlon o'r iaith wreiddiol.

*most
muscle
apparent
regular
together
native
British
sometimes
numerous
recent
actually
often
massive
already*

Mae hepgoriadau o'r fath yn rhoi'r argraff o gyfieithu esgeulus a diofal, yn enwedig felly oherwydd gellid eu hosgoi'n rhwydd trwy brawfddarllen yn ofalus. Mae'r un peth yn wir am y gwallau gramadegol amrywiol a welwyd, er enghraifft:

tannau ('tanau' yw ffurf luosog tân)
rhywiogaethau
yn rhyw hwyr
ymenydd
yn ngolwg
gwas y nedit
iachau
cysylltu a'i gilydd
ynglyn
loynnod
glwm a'i gilydd
mynd i'r afael a newid
heconomiau
ymdrechion gynyddol frys
o bobl dawnus
arbennig o llesol
gall bawb ganu/gall pawb canu
o fobl

ei ddefnyddio/ei ddangos (wrth gyfeirio at enw benywaidd)
peth dystiolaeth
gan rhai
neu rhyw
gwahanol diwylliannau

Er mai'r lefel Sylfaenol yw hon, mae gwallau elfennol o'r fath yn siomedig. Pwysleisir pwysigrwydd darllen y Saesneg yn ofalus ac ystyried cyd-destun y darn, ac anogir ymgeiswyr yn gryf i ymarfer eu sgiliau prawfddarllen fel bod sylwi ar fân lithriadau yn dod yn ail natur iddynt. Trwy wneud hynny, gallant wneud cyfiawnder â'u hunain trwy gynhyrchu eu gwaith gorau. Hoffwn longyfarch yr ymgeiswyr a lwyddodd i wneud hynny; roedd yr enghreifftiau niferus o gyfieithu llwyddiannus yn galonogol.

Wrth gloi fy adroddiad, carwn ddiolch o galon i staff Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru a'r Bwrdd Arholi Testunau am bob cefnogaeth a chymorth.

Y Dirprwy Arholwr i'r Gymraeg
Mehefin 2023

Adran 2 – Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg

Nifer yr ymgeiswyr: 8

Llwyddo: 2

Dim ond dau ymgeisydd a lwyddodd i gyrraedd y safon yn yr arholiad Sylfaenol Cymraeg>Saesneg y tro hwn. Serch hynny, cafwyd nodweddion da ym mhob papur, a rhai ymgeiswyr yn dod yn agos iawn at llwyddo. Yn anffodus, nid oedd y safon yn gyson trwy'r ddau ddarn, gyda rhai yn llwyddo mewn un papur ond yn methu yn y llall, a'r mwyafrif wedi cael mwy o drafferth yn yr ail ddarn, oedd yn awgrymu eu bod wedi brysio i orffen. Mae'n wir nad yw'r mwyafrif o gyfieithwyr yn cael llawer o gyfle i gyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ac efallai mai'r diffyg profiad hwnnw sy'n cyfrif am rai o'r gwendidau a welwyd. Rhaid pwysleisio hefyd y dylai ymgeiswyr geisio rhannu eu hamser yn weddol gyfartal rhwng y ddau ddarn, a gadael digon o amser i brawfddarllen y gwaith yn ofalus. Ni ddisgwylir gwaith di-fai ar y lefel hon, ond y gobaith yw y bydd yr ymgeiswyr yn arddangos medrau da yn y ddwy iaith, ac ymwybyddiaeth o ofynion a sgiliau cyfieithu.

Dyma rai enghreifftiau o gyfieithu da a welwyd.

Onid mae'r Pwyllgor yn poeni am amllder y gollyngiadau a'r cynnydd a welwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

However, the Committee is concerned by the frequency of these releases and the increase seen in recent years.

y byddai cartrefi a busnesau'n gorlifo â charthion
homes and businesses would flood with sewage

mae'n debygol bod y nifer gwirioneddol yn llawer uwch.
it's likely that the true figure is much higher.

i fesur effaith y gollyngiadau ar yr amgylchedd.
to measure the impact of the releases on the environment.

yn anaml ac mewn tywydd eithriadol yn unig y mae gorlifoedd storm yn weithredol.
storm overflows are seldom operational, and only in extreme weather

Erbyn 2020 roedd dros 105,000 o achosion o garthion heb eu trin yn cael eu gollwng i afonydd Cymru

By 2020 the number of instances of untreated sewage released into Wales rivers exceeded 105,000

Yn ucheldiroedd yr Andes ym Mheriw, yn sydyn ac annisgwyl, bu farw
passed away, suddenly and unexpectedly in the uplands of the Peruvian Andes/the highlands of the Andes in Peru.

Roedd cyn-gapten timau rygbi Pont-y-pŵl a Chymru yn rhan o griw a oedd ar fin cerdded i Machu Picchu

The former captain of the Pontypool and Wales rugby teams was part of a group who were about to walk to Machu Picchu / was part of a group about to hike to

gyda'r bwriad o chwyddo coffrau mudiad Prostate Cymru
with the aim of raising money / funds for Prostate Wales

cafwyd ysgrifau coffa di-ri amdano
countless tributes were written about him

ei allu aruthrol fel llenor
his exceptional skills as a writer

meddwl craff
sharp mind / astute mind

yn ddarledwr a newyddiadurwr o fri
a distinguished broadcaster and journalist

pwysu a mesur pob gair a dehongli'n ddeallus
he would have considered every word and undertaken intelligent analysis / intelligent analysis and careful consideration

yn ddeifiol, yn ddiddorol ac yn ddi-flewyn-ar-dafod
scathing, interesting and forthright / scathing, fascinating and outspoken

Meiddiaf ddweud
I dare say

hoelion wyth y cyfnod
Some of the greatest literary names of his day / the greats of his time

y Fedal Ryddiaith
the Medal Rhyddiaith - the highest prize for Welsh prose [Wrth gyfeirio at nodwedd ddiwylliannol a fyddai'n ddieithr i gynulleidfa ddi-Gymraeg mae'n bwysig gosod rhywfaint o gyd-destun.]

Cymro i'r carn
a Welshman through and through / to the core

dweud cyfrolau am y cystadleuwyr a'r cystadlu
spoke volumes about the competitors and the competition.

y cyfan wedi'i baratoi â gofal, y lluniau'n addas, a'r geiriau'n llawn teimlad yn dweud cyfrolau
all were prepared with care, the images appropriate and the meaningful words speaking volumes

Er hynny, cafwyd nifer o wendidau a drafodir isod dan benawdau.

Methiant i ddehonglir darn fel cyfanwaith

Hyd yn oed ar y lefel Sylfaenol mae'n hollbwysig bod ymgeiswyr yn dehongli pob brawddeg o fewn cyd-destun y darn cyfan. Mae'n siŵr y byddai pwnc y darn cyntaf, er enghraifft, wedi bod yn weddol ddieithr i rai ond mae'n glir o'r cyd-destun mai gollyngiadau bwriadol sydd dan sylw, ac nid rhai damweiniol. Derbyniwyd **discharges** neu **releases**, felly, i gyfieithu *gollyngiadau* ond nid **spillages** neu **leaks**. (Defnyddiwyd **emissions** hefyd, sy'n cyfeirio at nwyon yn unig.) Mae hefyd yn glir fod gorlifoedd storm yn fecanweithiau sy'n cael eu gweithredu gan y cwmnïau dŵr, felly *'operational / operate'* sy'n gywir ac nid **occur**.

Wrth gyfieithu y *Senedd* dylid cofio mai at Senedd Cymru y cyfeirir ac felly *'the Senedd'* neu *'the Welsh Parliament'* yw'r ddau gyfieithiad derbyniol ac nid **Parliament** ar ei ben ei hun. Dylid cofio hefyd wrth gyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg fod yn rhaid egluro ambell beth i gynulleidfa ddi-Gymraeg, fel y nodwyd uchod. Nid pob ymgeisydd oedd wedi deall fod angen rhywbeth mwy na **Prose Medal** i gyfieithu *Y Fedal Ryddiaith*.

Enghraifft arall o frawddeg yr oedd angen ei chyfieithu o fewn ei chyd-destun yw *Byddai wedi pwyso a mesur pob gair a dehongli'n ddeallus cyn bwrw pin ar bapur*. Colofn wythnosol Eddie Butler am rygbi yw'r cyd-destun a'r mwyafrif o'r ymgeiswyr wedi baglu ar y ddau air *dehongli'n ddeallus*.

He would carefully choose each word and interpret each word before putting pen to paper.

He would have weighed up and intelligently interpreted each word before putting pen to paper.

A bod yn deg â'r ymgeiswyr roedd yn frawddeg heriol, ond o ystyried y cyd-destun daw'n amlwg mai dehongli, nid ei eiriau ei hun, ond sefyllfa'r byd rygbi a'r gemau yr oedd yn ysgrifennu amdanynt yr oedd Eddie Butler. Nodwyd dau gynnig da uchod, y ddau yn defnyddio'r geiriau ***intelligent analysis***.

Gorddefnyddio troednodiadau

Oherwydd na chaniateir mynediad i'r we yn ystod yr arholiad, gall troednodiadau fod yn ffordd hwylus o nodi ansicrwydd ynghylch term technegol. Ond ni ddylai'r ymgeiswyr orddefnyddio'r troednodiadau i gynnig cyfieithiadau amgen neu egluro eu penderfyniadau. Nid yw ymgeiswyr yn cael eu cosbi am ddefnyddio troednodiadau ond yr hyn sydd ar y papur sy'n cael ei farcio a gallai llunio troednodiadau fynd â thipyn o amser yn yr arholiad y byddai'n rheitiach ei ddefnyddio i ddarllen dros y gwaith yn ofalus.

Gwallau esgeulus

Rhaid ailadrodd yr un hen gân – dylai ymgeiswyr redeg eu gwaith trwy wirydd sillafu a hefyd ddarllen dros eu gwaith yn ofalus oherwydd ni fydd y gwirydd sillafu yn codi pob gwall.

[y]n gorlifo â charthion...

would have overflown yn lle '*would be overflowing*'. (Nid yw ***overflown*** yn gywir beth bynnag, oherwydd '*overflowed*' yw rhangymeriad gorffennol '*overflow*').

anaml – ***unfrequently*** yn lle '*infrequently*'.

pe na baent yn gwneud hynny.

If this was action was not taken yn lle '*if this action was/were not taken*' (neu yn well ac yn symlach '*if they didn't do this*').

tywydd eithriadol. ***Exceptional weathers*** yn lle '*exceptional / extreme weather*'.

Prostate Cymru – ***Prostrate Wales*** yn lle '*Prostate Wales/Cymru*'.

hoelion wyth – ***stale warts*** yn lle '*stalwarts*'.

Y Fedal Ryddiaith – ***literacy medal*** yn lle '*literature medal*'.

Gorgyfieithu

[a]’i egni fel siaradwr cyhoeddus

his sheer energy as a public speaker

am y Fedal Ryddiaith

for prizes (such as the Prose Medal) yn lle '*for The Prose Medal*'.

Hepgor geiriau

maen nhw'n dweud y dylid sicrhau mai yn anaml...y mae gorlifoedd storm yn weithredol

and says that storm overflows should be used infrequently

Gwallau cywair

cafwyd ysgrifau coffa di-ri amdano

There have been endless obituaries for him. (Mae arlliw difriol i'r gair 'endless' - yn awgrymu bod gormod ohonynt! Byddai 'countless' yn well).

y bêl hirgron

the oval ball (Mae 'y bêl hirgron' yn ymadrodd cyffredin yn Gymraeg ond nis defnyddir yn Saesneg.)

ar derfyn y Gemau Olympaidd

during the finale / during the closing of the Olympic Games

Gwallau ystyr

honni

assuming

dŵr llonydd

stagnant water (yn lle 'still water / standing water')

criw

crew (yn Gymraeg defnyddir 'criw' mewn ystyr ehangach)

anaml

sporadically

rhag ofn ei bod yn cynnwys llygredd a gwastraff dynol

lest it be contaminated by pollution and human excrement

yn tystio

testimonies

yn sydyn ac yn annisgwyl

suddenly and expectedly / quickly and unexpectedly

ar fin cerdded

about to scale

yn ddarllledwr a newyddiadurwr o fri

a well-known broadcaster and newsreader / an esteemed reporter and journalist.

llawn teimlad

poignant (Mae'r ansoddair **poignant** yn cyfeirio at rywbeth trist).

deallus

comprehendingly

di-flewyn-ar-dafod

tongue and cheek ('tongue in cheek' yw'r ffurf gywir). Dyma enghraifft o broblem sy'n codi'n eithaf aml wrth gyfieithu, lle mae idiomaau yn y ddwy iaith yn cynnwys yr un gair neu eiriau ond yn golygu rhywbeth hollol wahanol. Mae 'forthright' neu 'outspoken' yn ddau gyfieithiad posib.

addysg Gymraeg

a Welsh education yn lle 'a Welsh-medium education'.

doniau
aptitude

Cyfieithu llythrennol

cartrefol
homely (Byddai 'relaxed' yn agosach ati.)

cafwyd ysgrifau coffa di-ri
countless obituaries have been received

Meistr wrth ei waith
A master at his work

Gwallau cystrawennol a gramadegol

yn brawf pendant
testament of

cystadlu
competing (yn lle 'competition'. Dylid cofio bod y Gymraeg yn llawer mwy tueddol i ddefnyddio berf yn lle enw lle awgrymir gweithred neu broses.)

gan honni
whilst claiming (yn lle 'claiming')

Erbyn 2020 roedd dros 105,000 o achosion o garthion heb eu trin yn cael eu gollwng i afonydd Cymru.

By 2020, over 105,000 cases of untreated sewage were being released into Welsh rivers yn lle 'By 2020 there were over 105,000 incidents of untreated sewage being released into Welsh rivers'. Mae'r gystrawen, ynghyd â'r defnydd o **cases** yn lle 'incidents' yn awgrymu delwedd o gesys o garthion yn nofio i lawr yr afon!

Camddeall idiomau

dweud cyfrolau
saying a book worth yn lle **spoke volumes** sy'n idiom Saesneg digon cyffredin, sydd erbyn hyn wedi ennill ei blwyf yn y Gymraeg.

I gloi, carwn longyfarch y ddau ymgeisydd llwyddiannus ac annog y lleill i ddyfalbarhau, gan fod nodweddion da ym mhob un o'r papurau. Byddwn yn eu hannog i barhau i ymarfer eu crefft, darllen yn eang yn y ddwy iaith, a darllen dros eu cyfieithiadau yn ofalus, gan 'wrando' ar y geiriau yn eu meddwl. Yn aml wrth 'wrando' y daw gwallau ac ymadroddion chwithig i'r amlwg. Carwn ddiolch o galon i staff Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru ac aelodau'r Bwrdd Arholi Testunau am eu gwaith proffesiynol a diwyd.

**Y Dirprwy Arholwr i'r Saesneg
Mehfin 2023**